OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 752 (Cy. 59)

# TAI, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Tai (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *16 Mawrth 2015* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *18 Mawrth 2015* |
| *Yn dod i rym - -* | *27 Ebrill 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 144(1) a (2) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014(**1**).

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Tai (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2015 a deuant i rym ar 27 Ebrill 2015.

### Diwygio Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Contractio Allan Swyddogaethau Dyrannu Tai a Digartrefedd) 1996

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Contractio Allan Swyddogaethau Dyrannu Tai a Digartrefedd) 1996(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 3 (contractio allan swyddogaethau digartrefedd) ar ôl "Part VII of the Act (homelessness)" mewnosoder "or Chapter 2 of Part 2 of the Housing (Wales) Act 2014 (help for people who are homeless or threatened with homelessness)".

(3) Ar ddiwedd Atodlen 2 mewnosoder "Functions conferred by or under section 95 of the Housing (Wales) Act 2014."

(**1**) 2014 dccc 7.
(**2**) O.S. 1996/3205.

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, un o Weinidogion Cymru

16 Mawrth 2015

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i erthygl 3 o Orchymyn Awdurdodau Lleol (Contractio Allan Swyddogaethau Dyrannu Tai a Digartrefedd) 1996 ("Gorchymyn 1996"), ac Atodlen 2 iddo. Mae'r diwygiadau hyn yn ganlyniadol ar weithredu Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ("Deddf 2014").

Mae Gorchymyn 1996 yn darparu bod gan awdurdodau tai lleol bwerau i gontractio allan eu swyddogaethau yn ymwneud â dyrannu tai a digartrefedd, yn ddarostyngedig i eithrio swyddogaethau penodol.

Mae erthygl 3 o Orchymyn 1996 yn darparu y caiff awdurdod tai lleol gontractio allan eu swyddogaethau digartrefedd o dan Ran 7 o Ddeddf Tai 1996 ("Deddf 1996"), ac eithrio'r rheini a restrir yn Atodlen 2 i Orchymyn 1996.

Effaith y Rheoliadau hyn yw diwygio erthygl 3 o Orchymyn 1996 fel bod Pennod 2 o Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn cael ei hychwanegu at y swyddogaethau digartrefedd y caniateir eu contractio allan. Diwygir Atodlen 2 i ychwanegu adran 95 (cydweithredu) o Ddeddf 2014 at y swyddogaethau sydd wedi eu heithrio rhag eu contractio allan. Golyga hyn y bydd awdurdodau tai lleol yn parhau i fod â'r pŵer i gontractio allan eu swyddogaethau digartrefedd ym Mhennod 2 o Ran 2 o Ddeddf 2014, pan fo mewn grym, oni bai bod y swyddogaeth yn un a restrir yn Atodlen 2 i Orchymyn 1996.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r offeryn hwn. Mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â gweithredu Rhan 2 o Ddeddf 2014. Cynhaliwyd asesiad effaith sy'n ymwneud â'r Rhan honno yn ogystal ag asesiad effaith cyffredinol o'r Ddeddf gyfan a gellir cael copi oddi wrth yr Is-adran Polisi Tai, Llywodraeth Cymru, Parc Busnes Rhyd-y-car, Merthyr Tudful, CF48 1UZ.